O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 806 (Cy.120)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 33, Cyfnewidfa Llaneurgain, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2011

Gwnaed	*15 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*28 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 33, Cyfnewidfa Llaneurgain, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 28 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 33, Cyfnewidfa Llaneurgain yn Sir y Fflint.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feiciau pedal, na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni fydd darpariaethau erthygl 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 15 Mawrth 2011

GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.